Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ

Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2020

Amser: 08.30 - 08.38

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Ann Jones AC (Cadeirydd) Rebecca Evans AC Darren Millar AC Rhun ap Iorwerth AC David J Rowlands AC
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd y Llywydd ei hymddiheuriadau a chadeiriodd y Dirprwy Lywydd y cyfarfod yn ei lle. Anfonodd Caroline Jones ei hymddiheuriadau hefyd, ac roedd David Rowlands yn bresennol fel ei dirprwy.

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

Dydd Mercher

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid canlynol i Fusnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf:

Dydd Mawrth 21 Ionawr 2020 -

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) (90 munud)

Dydd Mercher 22 Ionawr 2020 -

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) (30 munud)

Dydd Mawrth 28 Ionawr 2020 -

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol: Cefnogi Canol ein Trefi (45 munud)

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 22 Ionawr 2020

- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)~~
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

Dydd Mercher 29 Ionawr 2020

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)

Dydd Mercher 5 Chwefror 2020 -

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Fframweithiau polisi cyffredin: craffu ar waith y Cynulliad (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

4 Deddfwriaeth

4.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i bennu dyddiad cau, sef dydd Iau 23 Ionawr, i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid adrodd yn ôl ar Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020.

5 Pwyllgorau

5.1 Cais i newid amserlen y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i adolygu slot cyfarfod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o fewn Amserlen y Pwyllgor fel y gall gwrdd yn wythnosol ar fore Mawrth.

6 Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Trefnydd wrth y Pwyllgor fod y llywodraeth yn bwriadu gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) heddiw, a bod yr amserlen seneddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig gael ei drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r memorandwm at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gyda dyddiad cau o ddydd Mawrth 21 Ionawr ar gyfer adrodd yn ôl.